# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-02-07)

**Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 25 Gorffennaf 2007**
**Amser y cyfarfod: 10.00am - 12.05pm**
**Lleoliad y cyfarfod: Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd**

### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

Alun Davies (Cadeirydd), Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mick Bates, Sir Drefaldwyn
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Kathryn Jenkins, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

### Eraill yn Bresennol

Dai Davies - Llywydd - NFU Cymru (Eitem 2)
Mary James - Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Polisi - NFU Cymru (Eitem 2) Steve James - Cynrychiolydd NFU Cymru ar y Grŵp Gweithredu ar TB (Eitem 2)
Brian Walters - Is-lywydd - Undeb Amaethwyr Cymru (Eitem 2)
Nick Fenwick - Cyfarwyddwr Polisi Amaethyddol - Undeb Amaethwyr Cymru (Eitem 2)
Julian Salmon - Cyfarwyddwr Rhanbarthol, CLA Cymru (Eitem 2)
Paddy Rooney - Cynrychiolydd Pwyllgor Gweithredol y CLA yng Nghymru ar y Grŵp Gweithredu ar TB (Eitem 2)
Rhydian Rees -CLA Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cefn Gwlad (Eitem 2)

### Eitem 1: Cyflwyniad ac Ymddiheuriadau

1.1 Estynnodd y cadeirydd groeso i'r is-bwyllgor ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod gan nodi pa mor dda oedd ganddo fod y pwyllgor yn cynnal cyfarfod pwyllgor cyntaf y Cynulliad yn Sioe Frenhinol Cymru, a hynny ar ben-blwydd cyntaf Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael cydsyniad brenhinol. Dywedodd y cadeirydd na fyddai Elin Jones yn aelod o'r is-bwyllgor mwyach yn sgil ei phenodiad yn Weinidog dros Faterion Gwledig.

### Eitem 2: Cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor ar gyfer ei ymchwiliad i TB mewn gwartheg yng Nghymru Papur: RDC(3)-01-07(p.1), RDC(3)-02-07(p.2), RDC(3)-03-07(p.3)

2.1 Croesawodd y pwyllgor Dai Davies, Llywydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru; Mary James, Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Polisi, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru; Steve James, Cynrychiolydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru ar y Grwp Gweithredu ar TB; Brian Walters, Is-lywydd Undeb Amaethwyr Cymru; Dr Nick Fenwick, Cyfarwyddwr Polisi Amaethyddol, Undeb Amaethwyr Cymru; Julian Salmon, Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru; Paddy Rooney, Cynrychiolydd Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad yng Nghymru ar y Grwp Gweithredu ar TB; Rhydian Rees, Cadeirydd Is-bwyllgor Materion Gwledig Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru. Rhoddodd y tystion gyflwyniad bras ar y prif bwyntiau yn eu papurau. 2.2 Bu'r pwyllgor yn holi'r tystion ynglŷn â'u tystiolaeth. 2.3 Mae'r pwyllgor yn cynnig cyhoeddi ei adroddiad ym mis Tachwedd ar ôl cymryd tystiolaeth pellach a holi'r Gweinidog. Gwasanaeth y Pwyllgorau
Gorffennaf 2007